Women's Heritage Walk : Barry

Taith Gerdded Treftadaeth Menywod : Y Barri

ARCHIF MENYWOD CYMRU

WOMEN'S ARCHIVE WALES

Start / *Man cychwyn*: Gorsedd Stones /*Cerrig yr Orsedd*, *Parc* Romilly Park, Barry / *Y Barri*, CF62 6RR

End / *Diwedd*: St Francis Millennium Centre/ *Canolfan Sant Ffransis*, Porth-y-Castell, CF62 6NX

Copyright and acknowledgements / *Hawlfraint a chydnabyddiaeth*

With thanks to the copyright holders below:

Diolch i'r deiliaid hawlfraint isod:

Photographs and pictures / Ffotograffau a lluniau

Ellen Evans: ©Glamorgan Archives / *Archifau Morgannwg*

Margaret Lindsay Williams: ©National Portrait Gallery

Grace Williams: © British Music Collection

Elizabeth Phillips Hughes gan Margaret Lindsay Williams: permission to reproduce by National Library of Wales with acknowledgment to the artist's estate. Every effort has been made to discover the copyright holder/ *Caniatâd atgynhyrchu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru gan gydnabod ystâd yr artist. Gwnaethpwyd pob ymdrech i ddarganfod deiliad yr hawlfraint.*

Rene Jones and /*ac* Eirene White: in /*yn T. J.: A Life of Dr Thomas Jones, C.H.* (University of Wales Press, 1992) ©UWP/ GPC

Annie Gwen and Gwyneth Vaughan Jones: © Nigel Colley www.garethjones.org

Dorothy Rees: Election Handbill in / *Taflen Etholiad yn* Donald Moore (ed.) *Barry Centenary Book* (Barry, 1984)

Acknowledgements / *Cydnabyddiaeth*

Barry Women's Trail (Vale of Glamorgan Council/ *Cyngor Bro Morgannwg*) https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Enjoying/Walking/Barry-Women-Trail-Booklet.pdf

This leaflet is for non-profit making, educational purposes only

Y mae'r llyfryn hwn at ddefnydd addysgiadol, di-elw yn unig

Prepared by Sian Rhiannon Williams on behalf of AMC/ WAW

Paratowyd gan Sian Rhiannon Williams ar ran AMC / WAW

Women's Heritage Walks / *Teithiau Cerdded Treftadaeth Menywod*

Welcome to Women's Archive Wales' Barry Women's Heritage Walk. This leaflet is one of a series designed to promote an understanding of women's history in Wales. Women's history has often been hidden, ignored or neglected. The aim of Women's Archive Wales is to re-discover the women who have contributed so much to our history and to restore them to their rightful place.

Croeso i Daith Gerdded Treftadaeth Menywod y Barri, Archif Menywod Cymru. Mae'r daflen hon yn un o gyfres a gynlluniwyd i hyrwyddo dealltwriaeth o hanes menywod yng Nghymru. Mae hanes menywod yn aml yn guddiedig, wedi ei anwybyddu neu ei esgeuluso. Nod Archif Menywod Cymru yw ail-ddarganfod y menywod hynny sydd wedi creu ein hanes ac adfer iddynt eu lle priodol ynddo.

Contents / *Cynnwys*

Page/ *tud*.	**Numbers in brackets relate to number on map, p.16** ***Rhif mewn cromfachau – gweler y map, t.16***	
4	Introduction to Barry walk */ Cyflwyniad i daith y Barri*	
5	Ellen Evans (1)	(Gorsedd)
6	Margaret Lindsay Williams (2)	(Gorsedd)
7	Grace Williams (3)	(9, Old Village Road)
8	Elizabeth Phillips Hughes (4)	(2, Park Road)
9	Rene Jones (5)	(8, Park Road)
9	Annie Ffoulkes (6)	(8, Park Road)
10	Eirene White (7)	(8, Park Road)
11	Annie Gwenllian Jones (8)	(Eryl, Porth-y-Castell)
11	Gwenllian Vaughan Jones (9)	(Eryl, Porth-y Castell)
12	Dorothy Rees (10)	(Canolfan St.Ffransis Centre)
13	Other local politcal women / *Menywod gwleidyddol lleol eraill*: Beatrice Lewis, Gwenllian Payne, Margaret Alexander (10)	
14	Further reading / *Darllen pellach*	
15	Notes / *Nodiadau*	
16	Map	

Barry Women's Heritage Walk AMC/ WAW: Introduction

The walk visits six locations and shares the stories of 13 women who, in various ways, contributed to the community in Barry and/ or to Wales /more widely. For practical reasons, it centres upon the west end of town which, historically, has been home to middle class, professional people, so most of the interesting women included reflect that social background. Other notable Barry women from different backgrounds deserve recognition, so although their homes are located beyond this area, several will be mentioned during the walk and brief notes are included here. Two important establishments for Welsh women's history, the Glamorgan Training College for Women Teachers and Barry Intermediate / County Girls' School, are also beyond the bounds of the walk but feature in the lives of several of these women.

In 2005, Barry Town Council set up the Barry Women's Trail of 17 women, with an accompanying booklet by Professor Deirdre Beddoe of AMC/WAW. The booklet, which has been helpful in the preparation of this walk, is available on the Vale of Glamorgan Council website and includes many, but not all, the women featured here. (See Further Reading, p. 14).

Taith Gerdded Treftadaeth Menywod y Barri AMC/ WAW: Cyflwyniad

Mae'r daith yn ymweld â chwe lleoliad ac yn rhannu hanesion 13 o fenywod a gyfrannodd yn eu ffyrdd amrywiol i'r gymuned yn y Barri ac / neu yn ehangach yng Nghymru/y tu hwnt. Am resymau ymarferol, taith o gwmpas pen gorllewinol y dref ydyw, ardal sydd, yn hanesyddol, wedi bod yn gartref i bobl ddosbarth canol a phroffesiynol, ac felly mae'r rhan fwyaf o'r menywod diddorol sydd wedi eu cynnwys yn adlewyrchu'r cefndir hwnnw. Mae nifer o fenywod nodedig eraill y Barri o gefndiroedd gwahanol yn haeddu sylw, felly sonnir yn fras am rai ohonynt yma er bod eu cartrefi y tu hwnt i gylch y daith. Mae dau sefydliad pwysig yn hanes menywod Cymru, sef Coleg Hyfforddi Morgannwg i Athrawon ac Ysgol Ganolraddol / Sirol y Merched yn y Barri yn rhy bell i'w cynnwys ar y daith gerdded ond maent yn allweddol ym mywydau sawl un o'r menywod hyn.

Yn 2005 crëwyd Llwybr Menywod y Barri gan Gyngor Tref y Barri ynghyd â llyfryn gan yr Athro Deirdre Beddoe o AMC (yn Saesneg). Mae'r llyfryn, a fu'n gymorth wrth gynllunio'r daith hon, ar gael ar wefan Cyngor Bro Morgannwg. Mae'n rhoi sylw i 17 o fenywod, ac mae'n cynnwys nifer, ond nid pawb, a gynhwysir yma. (Gweler Darllen Pellach, t. 14).

Gorsedd Stones Romilly Park/ *Cerrig yr Orsedd, Parc Romilly,* CF62 6RR

Ellen Evans MA, CBE (1891-1953)

(Bardic name: Elen)

Other site of interest: Former Glamorgan Training College, College Road, CF62 8LF (Blue plaque)

Originally from Gelli, Rhondda, Ellen Evans was the Welsh lecturer (from 1915) then Principal (from 1923) of Glamorgan Training College, Barry. An influential educationalist, her main national contributions were in the development of nursery schools and of the use of Welsh in education. An enthusiastic promoter of Welsh culture and the Eisteddfod, she was also active in the causes of world peace, religious education and youth work. She served on innumerable boards and committees, both local and national, including Coleg Harlech, Urdd Gobaith Cymru, UNESCO and the Courts of the University Colleges of Cardiff and Aberystwyth.

Ellen Evans MA, CBE (1891-1953) (Enw barddol: Elen)

Man arall o ddiddordeb: Cyn Goleg Hyfforddi Morgannwg, Heol y Coleg, CF62 8LF (Plac glas)

Yn enedigol o'r Gelli, Rhondda, bu Ellen Evans yn ddarlithydd Cymraeg (1915) ac yna'n bennaeth (1923) ar Goleg Hyfforddi Morgannwg y Barri. Fel ffigur dylanwadol yn y byd addysg yng Nghymru, cyfrannodd yn bennaf at ddatblygiad ysgolion meithrin a'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg. Roedd hi hefyd yn weithgar dros achos hedddwch rhyngwladol, addysg grefyddol a mudiadau'r ifanc ac yn frwd o blaid diwylliant Cymru a'r Eisteddfod. Bu'n aelod o fyrddau a phwyllgorau di-rif, yn genedlaethol ac yn lleol, gan gynnwys Coleg Harlech, Urdd Gobaith Cymru, Llysoedd Colegau Prifysgol Caerdydd ac Aberystwyth ac UNESCO.

Gorsedd Stones, Romilly Park/ Cerrig yr Orsedd Parc Romilly

Margaret Lindsay Williams (1888-1960)

Other sites of Interest: 9, Windsor Road, CF62 7AW (Blue plaque) and former Windsor Road chapel nearby

An internationally renowned professional artist, Margaret was brought up in Barry from the age of nine. She lived in London for most of her life but retained her links with Windsor Road chapel where her funeral took place. A brilliant student at the Royal Academy, and first Welsh artist to win its Gold Medal, in 1914 she was rejected as an official war artist because she was a woman but used her art to support the war effort in Wales. She is best known for her skilful portraits of well-known Welsh and international figures and of the royal family, but she also painted religious subjects, often depicting women, and Welsh legends. She was Vice-president of the South Wales Arts Society and a member of the Honourable Society of Cymmrodorion and the Gorsedd of Bards.

Margaret Lindsay Williams (1888-1960)

Mannau eraill o ddiddordeb: 9, Windsor Road, CF62 7AW (Plac glas) a chyn-gapel Winsdor Road gerllaw

Treuliodd Margaret, artist proffesiynol sy'n adnabyddus yn rhyngwladol, ei hieuenctid yn y Barri, ac er iddi dreulio'r rhan fwyaf o'i hoes yn Llundain cadwodd gysylltiad â chapel Windsor Road lle cynhaliwyd ei hangladd. Fel myfyriwr eithriadol ddisglair yn yr Academi Frenhinol, a'r artist Cymreig cyntaf i ennill medal aur y sefydliad, gwrthodwyd ei chais i weithio fel artist rhyfel swyddogol yn 1914 am ei bod yn ferch, ond defnyddiodd ei dawn i gefnogi'r ymgyrch yng Nghymru. Mae hi'n adnabyddus yn bennaf am ei phortreadau medrus o Gymry amlwg, ffigurau rhyngwladol ac o'r teulu brenhinol, ond yn ogystal paentiodd destunau crefyddol yn aml yn cynnwys menywod, a chwedlau Cymreig. Roedd yn Is-lywydd Cymdeithas Gelf De Cymru ac yn aelod o Gymdeithas Anrhydeddus y Cymmrodorion a Gorsedd y Beirdd.

9, Old Village Road, CF62 6RA (Plaque)

Grace Mary Williams (1906-1977)

Other sites of interest: 16, Wenvoe Terrace, CF62 7ES (Blue plaque); Barry County Library, CF63 4RW (Portrait by Ceri Thomas)

Grace Williams, one of the most important Welsh composers, was inspired by her musical education in Barry, London and Vienna. The daughter of teachers, one a local musician, she taught music and composed for orchestra, voice, radio and films, including commissioned works. Her highly expressive music reflects her love of the sea and her Welsh cultural background. Best known are *Sea Sketches* (1944) and *Fantasia on Welsh Nursery Tunes* (1938). Highly regarded by her peers, she returned to Barry in 1947 and lived here until her death. In 2006, the centenary of her death was marked by several public performances of her works.

Grace Mary Williams (1906-1977) 9, Old Village Road, CF62 6RA (Plac)

Mannau eraill o ddidordeb: 16, Wenvoe Terrace, CF62 7ES (Plac glas); Llyfrgell Sirol y Barri County, CF63 4RW (Portread gan Ceri Thomas)

Ysbrydolwyd Grace Williams, un o gyfansoddwyr pwysicaf Cymru, gan ei haddysg gerddorol yn y Barri, Llundain a Vienna. Yn ferch i athrawon, a'i thad yn gerddor lleol, bu'n dysgu cerddoriaeth ac yn cyfansoddi ar gyfer cerddorfeydd, llais, radio a ffilmiau, gan gynnwys gweithiau comisiwn. Mae ei cherddoriaeth hynod fynegiannol yn adlewyrchu ei hoffter o'r môr a'i chefndir diwylliannol Cymreig. Ymhlith y mwyaf adnabyddus mae Sea Sketches *(1944) a* Fantasia on Welsh Nursery Tunes *(1938). Yn gerddor uchel ei pharch gan ei chymheiriaid, dychwelodd i'r Barri ym 1947 a bu yma hyd at ei marwolaeth. Yn 2006 nodwyd canmlwyddiant ei geni gyda nifer o berfformiadau cyhoeddus o'i gweithiau.*

2, Park Road, CF62 6NU (now part of Baltimore Care *Home / rhan o Gartref Gofal Baltimore erbyn hyn)*

Elizabeth Phillips Hughes MA, MBE, LLD, 1851-1925 (Bardic name: Merch Myrddin)

Carmarthen born educationalist Elizabeth P. Hughes was already well known in Wales and beyond as principal of Cambridge Women's Training College for Teachers (later Hughes Hall) before she came to live in Barry in 1899 where she devoted her life to social and political reform. A pioneer of women's education, as a member of the Glamorgan County Council she influenced the establishment of the Training College in Barry and founded the Barry women's Twentieth Century Club and the Red Cross Unit. Widely travelled, she was a Professor at the Japanese Women's University and in Wales, a governor of the University College Cardiff and the University of Wales and a member of the Gorsedd of Bards. Portrait by Margaret Lindsay Williams (1935).

Elizabeth Phillips Hughes MA, MBE, LLD 1851-1925 (Enw barddol: Merch Myrddin)

Erbyn iddi symud i'r Barri ym 1899, lle gweithiodd dros ddiwygiadau cymdeithasol a gwleidyddol, roedd Elizabeth P. Hughes (o Gaerfyrddin) eisoes yn adnabyddus fel addysgwraig arloesol a phennaeth Coleg Hyfforddi Athrawon Caergrawnt i Ferched (Hughes Hall wedyn). Bu'n ymgyrchu'n frwd dros addysg merched a menywod ers blynyddoedd ac fel aelod o Gyngor Sir Morgannwg llwyddodd i sicrhau lleoli'r Coleg Hyfforddi Athrawon yn y Barri a sefydlodd Glwb yr Ugeinfed Ganrif ac Uned y Groes Goch yn y dref. Yn deithwraig o fri, penodwyd hi'n Athro yn y Brifysgol i Fenywod yn Japan, tra yng Nghymru roedd yn llywodraethwraig yng Ngholeg y Brifysgol Caerdydd a Phrifysgol Cymru ac yn aelod o Orsedd y Beirdd. Portread gan Margaret Lindsay Williams (1935).

(See also WAW Carmarthen Heritage Walk/ *Gweler hefyd Taith Treftadaeth AMC Caerfyrddin)*

8, Park Road (formerly Anwylfan *gynt*), CF62 6NU. Centre of literary and political circle / *Canolfan cylch llenyddol a gwleidyddol* c. 1911-19

Eirene (Rene) Theodora Jones (née Lloyd) (1875-1935)

Born in Liverpool to a family which hailed from Chirk, **Rene** lived in Barry between 1911 and 1919. A graduate in Classics and former secondary school teacher, she studied at Aberystwyth and Cambridge. Described as a 'formidable personality' with 'a wide-ranging' and 'incredibly clear mind', she was, according to her better known husband, Thomas Jones C.H., 'the stronger character' in their partnership. Rene was active in several social and political reform movements and was secretary of the Barry branch of the Cardiff and District Women's Suffrage Society (NUWSS) from 1913. Emmeline Pankhurst visited their home and Belgian refugees were welcomed here during the First World War.

*Bu **Rene'n** byw yn y Barri rhwng 1911 a 1919. Ganed hi yn Lerpwl i deulu oedd yn hannu o'r Waun. Astudiodd y Clasuron yn Aberystwyth a Chaergrawnt a daeth yn athrawes ysgol uwchradd cyn priodi. Disgrifiwyd hi fel 'personoliaeth gref' â chanddi ddealltwriaeth eang a meddwl eglur dros ben, a hi, yn ôl ei gŵr adnabyddus, Thomas Jones C.H., oedd cymeriad cryfaf y bartneriaeth. Roedd Rene'n weithgar mewn sawl mudiad cymdeithasol a gwleidyddol ac yn ysgrifennydd Cangen y Barri o Gymdeithas yr Etholfraint Caerdydd a'r Fro (NUWSS) o 1913 ymlaen. Bu Emmeline Pankhurst yn ymweld â'u cartref a chroesawyd ffoaduriaid o Wlad Belg yma yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.*

A member of this circle was **Annie Ffoulkes (1877-1962)**, contributor to <u>*Welsh Outlook*</u> and editor of a popular poetry collection, <u>*Telyn y Dydd*</u>. She taught French in Barry from 1905 until 1918 when she succeeded R. Silyn Roberts, another member of the circle, as Executive Secretary of the University of Wales Appointments Board.

*Aelod o'r cylch hwn oedd **Annie Ffoulkes (1877-1962)** cyfrannydd i'r cylchgrawn <u>Welsh Outlook</u> a golygydd cyfrol o gerddi poblogaidd, <u>Telyn y Dydd</u>. Bu'n athrawes Ffrangeg yn y Barri rhwng 1905 a 1918 pan ddilynodd R. Silyn Roberts, aelod arall o'r cylch, fel Ysgrifennydd Gweithredol Bwrdd Apwyntiadau Prifysgol Cymru.*

8, Park Road (formerly Anwylfan *gynt*), CF62 6NU

Eirene Lloyd White (née Jones)

(1909-1999)

(Baroness White of Rhymney)

An Oxford graduate and one of the first women political journalists, Eirene, daughter of Rene and Thomas Jones, was Labour MP for Flintshire East between 1950 and 1970. A campaigner for social equality, divorce rights and a determined anti-racist, she served as chairman of the Fabian society and the NEC of the Labour party, Minister at the Foreign Office and the Welsh Office, and was later Deputy Speaker of the House of Lords. A life peer, she gave a lifetime of public service on innumerable committees and boards, including in Wales, and received many honours. She treasured memories of her childhood years in Barry and her ashes were scattered here.

Eirene Lloyd White (née Jones) (1909-1999) (Arglwyddes White o Rymni)

Yn un o raddedigion Rhydychen, roedd Eirene, merch Rene a Thomas Jones, yn un o'r newyddiadurwyr gwleidyddol benywaidd cyntaf cyn dod yn AS Llafur dros Ddwyrain Sir y Fflint rhwng 1950 a 1970. Bu'n ymgyrchu dros gydraddoldeb cymdeithasol, hawliau ysgariad ac yn erbyn hiliaeth. Gwasanaethodd fel cadeirydd y gymdeithas Fabian, Pwyllgor Gweithredol Cenedlaethol y Blaid Lafur, Gweinidog yn y Swyddfa Dramor a'r Swyddfa Gymreig ac Is- Lefarydd Tŷ'r Arglwyddi, ac urddwyd hi'n arglwyddes am oes. Gwasanaethodd y cyhoedd drwy ei hoes ar nifer fawr iawn o bwyllgorau a byrddau, gan gynnwys yng Nghymru, a derbyniodd lawer o anrhydeddau. Trysorai atgofion am ei phlentyndod yn y Barri ac yma gwasgarwyd ei llwch.

‘Eryl’, 11, Porth-y-Castell, CF62 6QA

Annie Gwenllian Jones (née Davies) (1868-1965)
Gwyneth Valerie Vaughan Jones (1895-1996)

Educated in Merthyr and at UCW Cardiff and Aberystwyth, **Annie Gwen** came to Barry in 1899. She was President of the local Women’s Temperance Society, Secretary of the Barry Branch of the NUWSS, a founder member of the Barry Cymrodorion Society and the Twentieth Century Women’s Club (and its President). An advocate for Welsh culture and world peace, she led local archaeological and cultural excursions and international tours to Paris and Geneva. She served as a County Magistrate and as a member of the South Wales Conscientious Objectors’ Tribunal during WW2. Her talks on her experiences in the Ukraine were broadcast by the BBC. Her daughter **Gwyneth** won a scholarship to the University College of Wales, Aberystwyth in 1913 and taught French in Swansea and Cardiff before being appointed headmistress of Barry County Girls’ School in 1939, a post she held for twenty years. She was active in the British Federation of University Women and Barry Cymrodorion Society. Widely travelled, she encouraged her pupils to attain high academic standards.

*Addysgwyd **Annie Gwen** ym Merthyr a cholegau’r Brifysgol Caerdydd ac Aberystwyth, a daeth i’r Barri ym 1899. Roedd yn Llywydd y Gymdeithas Ddirwest leol ac yn ysgrifennydd cangen y Barri o’r NUWSS, yn gyd-sefydlydd Cymdeithas Cymrodorion y Barri a’r* Twentieth Century Club*. Gweithiodd dros y diwylliant Cymraeg a heddwch rhyngwladol ac arweiniodd deithiau archaeolegol a diwylliannol lleol a rhyngwladol gan gynnwys i Baris a Genefa. Gwasanaethodd fel Ynad Heddwch Sirol ac fel aelod o Dribiwnlys Gwrthwynebwyr Cydwybodol De Cymru yn ystod yr ail ryfel byd. Darlledwyd ei sgyrsiau am ei phrofiadau yn yr Iwcrain gan y BBC. Enillodd ei merch, **Gwyneth**, ysgoloriaeth i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth ym 1913 a bu’n athrawes Ffrangeg yn Abertawe a Chaerdydd cyn ei phenodi’n brifathrawes Ysgol Sirol y Barri i Ferched ym 1939, swydd y bu ynddi am ugain mlynedd. Roedd yn weithgar yn Ffederasiwn Prydeinig Menywod y Prifysgolion a Chymrodorion y Barri. Fel un a deithiodd yn eang, anogai ei disgyblion i ymgyrraedd at safonau academaidd uchel.*

St Francis Centre: Local women in politics

Canolfan Sant Ffrancis: Menywod lleol mewn gwleidyddiaeth

Dorothy Rees (née Jones) (1898-1987)

Other site of Interest: 6, Newlands Street, CF62 8DZ (Blue plaque)

The first woman MP for industrial south Wales, Dorothy Rees held the marginal seat of Barry for Labour in 1950-1. She became Chair of the Glamorgan County Council in 1964-5, the second woman only to hold that position, having been a member and Alderman since 1934. Born, educated and trained as a teacher in Barry, Dorothy, the daughter of a dock worker, served her native town and county as a local councillor and Chair of Governors of the Girls' school for many years. With her interest in educational and social welfare she represented the new welfare politics of the post-war era and supported educational reforms including comprehensive education, nursery schools and Welsh medium schools.

Dorothy Rees (née Jones) (1898-1987)

Man arall o ddiddordeb: 6, Stryd Newlands, CF62 8DZ (Plac glas)

Yr AS benywaidd gyntaf yn y de ddiwydiannol, etholwyd Dorothy Rees i sedd ymylol y Barri dros Lafur ym 1950-1. Daeth yn Gadeirydd Cyngor Sir Morgannwg ym 1964-5, yr ail fenyw yn unig i ddal y swydd honno, ar ôl bod yn aelod ac yn Henadur er 1934. Yn ferch i weithiwr yn y dociau, ganwyd ac addysgwyd Dorothy yn y Barri ac yma yr hyfforddodd fel athrawes. Gwasanaethodd ei thref enedigol a'i sir am flynyddoedd lawer fel cynghorydd lleol a Chadeirydd Llywodraethwyr Ysgol y Merched. Gyda'i diddordeb mewn lles addysgol a chymdeithasol, roedd hi'n cynrychioli gwleidyddiaeth les y cyfnod wedi'r rhyfel, gan gefnogi newidiadau addysgol gan gynnwys addysg gyfun, ysgolion meithrin ac ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Beatrice Lewis (1877-1929); Elvira Gwenllian (Gwen) Payne (née Hinds) (1917-2007); Margaret Elizabeth Alexander (1939-2012)

Beatrice Lewis, the first woman elected to Barry UD Council, served Castleland Ward from 1919 until her death in 1929 and championed the establishment of a maternity clinic in the town. She was described as 'one of the leading women' in the Labour party in Wales, 'progressive in thought and action, forceful in debate...'

Gwen Payne, Wales' first black local councillor, was a Barry Town councillor, Deputy Mayor (1979) and Vale of Glamorgan Borough Mayoress (1974-6). She was at the heart of her community and well-known for the contribution she consistently made to local civic life.

Margaret Alexander became the first female Mayor of the Vale of Glamorgan Council in 2005 and the first woman elected as its Leader. As a school governor and Labour councillor she was committed to fighting for social justice and reducing inequality, particularly for women and young people. She was also a writer. **(Sites of interest: 36, Oxford St, CF62 6NZ; Memorial bench Nell's Point Barry Island; Margaret Alexander Community Centre, Alexandra Crescent, CF62 7HU)**

*Ym 1919, **Beatrice Lewis** oedd y fenyw gyntaf i'w hethol ar Gyngor Ardal Drefol y Barri a gwasanaethodd hyd ei marw ym 1929, gan weithio dros sefydlu clinig mamolaeth yn y dref. Disgrifiwyd hi fel un o brif fenywod y Blaid Lafur yng Nghymru, 'yn flaengar o ran meddwl a gweithred, yn gryf mewn dadl…'*

*Roedd **Gwen Payne**, cynghorydd lleol du cyntaf Cymru, yn Gynghorydd Trefol, Dirprwy Faer (1979) a Maeres Bwrdeisdref Bro Morgannwg (1974-6). Roedd Gwen wrth galon ei chymuned ac yn adnabyddus am y cyfraniad cyson a wnai dros fywyd dinesig lleol.*

Margaret Alexander** oedd y fenyw gyntaf i'w hethol yn Faeres (2005) ac yn Arweinydd Cyngor Bro Morgannwg. Fel llywodraethwr ysgol a chynghorydd Llafur, ymgyrchodd dros gyfiawnder cymdeithasol a lleihau anghyfartaledd, yn arbennig I fenywod a phobl ifanc. Roedd hefyd yn awdur. **(Mannau o ddiddordeb: 36, Oxford St, CF62 6NZ; Memorial bench Nell's Point Barry Island; Margaret Alexander Community Centre, Alexandra Crescent, CF62 7HU)

Further reading / *Darllen Pellach*

Barry Women's Trail (Vale of Glamorgan Council/ *Cyngor Bro Morgannwg*) https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Enjoying/Walking/Barry-Women-Trail-Booklet.pdf

Bowyer, Sue *Beatrice Lewis, 1877-1929* WAW Newsletter / Cylchlythyr AMC June/ Mehefin 2020.

Ellis, Edward *T. J.: A Life of Dr Thomas Jones, C.H.* (University of Wales Press, 1992).

Dictionary of Welsh Biography, https://biography.wales/ / *Y Bywgraffiadur Cymreig* https://bywgraffiadur.cymru/ National Library of Wales / *Llyfrgell Genedlaethol Cymru.*

Gaffney, Angela *'Wedded to her Art': Margaret Lindsay Williams 1888-1960* (University of Wales Centre for Advanced and Celtic Studies, 1999).

garethjones.org - Website originally set up by Dr M. Siriol Colley. Now managed by Mr Nigel Colley: https://www.garethjones.org/overview/mainoverview.htm

Hirsch, P. and McBeth, M., *Teacher Training at Cambridge: The Initiatives of Oscar Browning and Elizabeth Phillips Hughes* (Woburn Press, 2004).

Jones, Sue Vincent, 'Gwenllian Hinds Payne'. Blog by Mrs SVJ https://mrssvj.co.uk/2020/07/05/barrys-black-lives-legacy/

Moore, Donald (ed.) *Barry Centenary Book* (Barry, 1984) 2nd edition, 1985.

Oxford Dictionary of National Biography

Williams, Sian Rhiannon, 'Rediscovering Ellen Evans, 1891-1953', *Trafodion / Transactions of the Cymmrodorion,* Vol. 19, 2013, pp.100-115.

Notes / *Nodiadau*

Map of the Walk / *Map o'r Daith Gerdded*



This booklet can be viewed on our website: www.womensarchivewales.org

Mae'r llyfryn hwn i'w weld ar ein gwefan: www.archifmenywodcymru.org

Charity number / *Rhif elusen* :1158204

Email/ *Ebost:* info@womensacrhivewales.org

ARCHIF MENYWOD CYMRU

WOMEN'S ARCHIVE WALES